



Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Oedolion

Adolygiad o Arfer Oedolion Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro

Parthed: APR 02/2020

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma: -

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ynglŷn â'r adolygiad dan sylw*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser sy'n destun yr adolygiad a phaham*
- *Amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd adolygiad ymarfer oedolion estynedig gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg yn sgil argymhelliad yr Is-grwp Adolygu Achosion yn unol â'r Canllawiau ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant Amlasiantaethol. Caiff meini prawf yr adolygiad hwn eu bodloni dan:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion, paragraff 7.1:

Rhaid i fwrdd gomisiynu adolygiad ymarfer oedolion estynedig os nodwyd bod oedolyn mewn perygl yn rhywun, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, y mae angen ei ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, ac:

- mae wedi marw; neu
- mae wedi cael anaf sy'n peryglu ei fywyd; neu
- amharwyd yn ddifrifol ac yn barhaol ar ei iechyd.

At ddibenion yr adroddiad hwn, byddwn ni'n defnyddio'r enw Glyn i gyfeirio at yr oedolyn mewn perygl. Nid Glyn yw ei enw go iawn.

Bu farw Glyn gartref ar 4 Ionawr 2020 gyda Mynegai Màs y Corff o 10. Roedd e'n 53 oed.

Cafodd Glyn ei eni a'i fagu yng Nghaerdydd gyda dwy chwaer, un yn hŷn nag ef ac un yn iau. Gadawodd yr ysgol gyda 3 safon uwch a bu'n gweithio fel saer coed hyd nes dechreuodd ei salwch am y tro cyntaf yn 1993 pan gafodd ddiagnosis o anhwylder affeithiol deubegynol. Bu farw ei dad pan oedd e yn ei ugeiniau. Parhaodd ei berthynas gefnogol gyda'i fam hyd at y misoedd cyn ei farwolaeth. Bu Glyn yn byw bywyd cymdeithasol, ac yn ymddiddori mewn cerddoriaeth fyw a chelf

ar hyd ei oes, ac yn wir, teithiodd Glyn i'r coleg celf lleol yn haf 2019 gan ddefnyddio ei gadair olwyn ar ei ben ei hun i gyflwyno portffolio o'i waith. Ond yn anffodus, cafodd ei wrthod gan nad oedd tiwtoriaid y coleg yn teimlo ei fod yn gallu ymrwymo i'r cwrs.

Roedd gwasanaethau iechyd meddwl yn gwybod am Glyn ers 1993 a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty ar sawl achlysur, weithiau dan orfod ac weithiau yn anffurfiol. Yn 2004, ceisiodd e ladd ei hun drwy gerdded o flaen trê'n tra'n feddw gydag alcohol a chyffuriau, lle cafodd anafiadau sylweddol. Collodd e fraich ac roedd ei gerdded yn gloff wedi hynny. Bu'n aros yn yr ysbyty am y tro olaf ar gyfer asesiad a thriniaeth o'i iechyd meddwl rhwng Mawrth a Mehefin 2017. Cafodd ei adolygu gan ei seiciatrydd am y tro olaf ym mis Medi 2018.

Roedd Glyn yn yfed gormod ar adegau ac yn arfer ysmegu sigarêts. Roedd yn byw ar ei ben ei hun mewn llety cymdeithas dai. Cafodd ei ofal a'i gymorth ei gydlynu gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, a chomisiynon nhw Asiantaeth Gofal A i ymweld ag ef unwaith yr wythnos i'w helpu gyda thasgau domestig fel glanhau a siopa.

Mae'r adolygiad ymarfer oedolion estynedig hwn yn ystyried yn fanwl y digwyddiadau o 4 Ionawr 2019 hyd at ei farwolaeth ar 4 Ionawr 2020. Cytunodd y panel i ystyried blwyddyn lawn er mwyn rhoi ystyriaeth i arhosiad hir yn yr ysbyty yn ystod 2019 a'r misoedd wedi hynny hyd at ei farwolaeth tra bu'n byw gartref.

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 14 Gorffennaf 2022 gyda gweithwyr proffesiynol o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Heddlu De Cymru, Asiantaeth Gofal Cartref A ac Adran Tai Cyngor Caerdydd. Yn anffodus, oherwydd diffyg adnoddau, doedd dim cynrychiolaeth Diogelu Oedolion.

Bu cadeirydd yr adolygiad mewn cysylltiad gyda theulu Glyn, a mynegon nhw baroddrwydd i gyfrannu tuag at yr adolygiad. Serch hynny, gan nad oedden nhw wedi cael unrhyw gysylltiad gyda Glyn ers haf 2019, roedd y teulu'n teimlo na fyddai llawer ganddyn nhw i'w gyfrannu.

Mae crynodeb o gronoleg y digwyddiadau o fewn amserlen yr adolygiad i'w weld yn yr atodiad i'w adroddiad.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwylnt dysgu unigol sy'n codi'n yr achos hwn (gan gynnwys amlygu arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol.

(beth y mae angen ei wneud yn wahanol yn y dyfodol a sut y bydd hyn yn gwella arfer a systemau sy'n cynorthwyo arfer yn y dyfodol)

Roedd Glyn yn cyflwyno ei hun fel person oedd eisiau bod yn annibynnol ac a oedd yn gyndyn o dderbyn gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn hoffi cymdeithasu ac roedd yn mwynhau treulio amser gyda ffrindiau, mynd i dafarnau, a gweld bandiau. Roedd yn byw gydag anhwylder meddyliol sy'n dueddol o achosi cyfnodau o mania ac iselder ac roedd hyn am flynyddoedd lawer yn effeithio ar ei allu i gadw swydd a pherthnasau, ond roedd yn mwynhau gweithio mewn siopau elusen a pharhaodd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth fyw a chelf.

Yn y flwyddyn cyn ei farwolaeth, disgrifiwyd cyflwr meddyliol Glyn yn aml fel un sefydlog ond gyda thuedd tuag at hwyliau isel; roedd ei gorff yn fwyfwy eiddil a'i symudedd yn lleihau. Er iddo barhau i ddymuno bod yn annibynnol, oherwydd ei fod yn byw ar y llawr cyntaf, roedd yn anodd iddo fynd allan i'r gymuned ac roedd yn dibynnu ar eraill i'w helpu. Byddai'n blaenoriaethu sigarêts ac alcohol yn fwy ac yn fwy gyda chymorth gan gymdogion a chwmnïau tacsis. Roedd yn defnyddio cadair olwyn i deithio yn ei gymuned ers cyn amserlen yr adolygiad hwn. Roedd faint o gymorth domestig a gofal personol yr oedd yn fodlon eu derbyn yn fach ac yn anghyson. Oherwydd hynny, ac anymataliaeth reolaidd, nid oedd yn gallu cynnal safon hylendid rhesymol i'w hun nac i'w cartref. Roedd yr ymddygiad hwn hefyd yn effeithio ar allu gweithwyr gofal i barhau i'w helpu, a dim ond ychydig o weithwyr gofal a oedd yn fodlon ei helpu. Ymddengys i'w iechyd waethygu yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn; bu yn yr ysbyty am gyfnod hir (Ionawr 2019 i Fehefin 2019) a sawl gwaith wedi hynny am gyfnodau bach yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys. Tra'n glaf mewnol yn yr ysbyty, derbyniodd ef nad oedd ei fflat yn addas oherwydd ei ddiffyg symudedd. Mynegodd ddiddordeb mewn symud i lety arall neu hyd yn oed cartref gofal, ond nid oedd ei dîm gofal wedi llwyddo i ddod o hyd i leoliad addas. Ymddengys ei fod wedi colli hyder yn y cynlluniau i'w ryddhau o'r ysbyty, collodd e ddiddordeb yn ei driniaeth yno, ac yn y diwedd, rhyddhaodd ei hun a dychwelodd i'w fflat. Ni fu byth eto yn ymwneud â gweithwyr iechyd proffesiynol yn yr ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, a gwrthododd triniaeth neu brofion pellach er gwaethaf y ffaith ei fod yn colli nerth a'r ffaith ei fod yn chwydu gwaed. Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd Glyn i'w weld yn cynnal y gallu meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun am ei iechyd a'i ofal cymdeithasol.

Roedd Glyn yn ddeallus, yn glir, ac mewn rheolaeth o'r hyn yr oedd yn fodlon ei dderbyn gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bu'n ymwneud â'i dîm gofal yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty rhwng Ionawr 2019 a Mehefin 2019, ac arhosodd yn yr ysbyty. Cytunodd i brofion a thriniaethau meddygol a gwnaeth ymholiadau positif am lety gwahanol - i'w landlord ac i'w dîm gofal. Ymddengys mai hwn oedd y cyfnod lle bu cyfle i ymyrryd mewn ffordd bositif ym mywyd Glyn. Yn anffodus, oherwydd oedi yn ei gais am gartref, ei gais am leoliad â galw uchel, a diffyg opsiynau addas mewn cartrefi gofal, ni wnaethpwyd dim byd â chais Glyn. Nododd y panel ddirywiad ym mharodrwydd Glyn i ymgysylltu o'r pwynt hwn ymlaen. Yna, cymerodd Glyn reolaeth o'i ffawd ei hun a rhyddhaodd ei hun o'r ysbyty. Aeth yn ôl adref i'w fflat ac yntau'n gwybod nad oedd yn addas iddo. Ni wnaeth Glyn ymwneud yn ystyrlon â gwasanaethau eto.

Wedi'r arhosiad chwe mis yn yr ysbyty, dychwelodd Glyn adref gyda chefnogaeth y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a drefnodd i asiantaeth gofal cartref ymweld ag ef nifer o weithiau bob dydd. Fel y'i nodwyd yn gynharach, roedd Glyn yn gwrthod gofal personol, cymorth o ran prydau bwyd a chymorth domestig yn aml. Roedd

hynny, ochr yn ochr â rhai ymddygiadau personol fel taflu hen badiau anymataliaeth ar y llawr, a hefyd gwlychu a baeddu'r gwely a manau eraill o'r fflat, yn ei wneud yn lle anniogel i weithio neu fyw. Yn ogystal â hynny, nid oedd Glyn yn blaenoriaethu ei anghenion maeth. Roedd yn mynd yn gynyddol eiddil, yn colli pwysau, ac yn fwyfwy tueddol o flaenoriaethu sigarêts ac alcohol.

Bu gweithiwr cymdeithasol Glyn a'r nyrs seiciatrig gymunedol yn ymweld ag ef yn ei gartref yn rheolaidd, gan arsylwi'r dirywiad yn ei iechyd a'i amgylchedd byw. Cafodd y fflat ei lanhau'n drylwyr ar ddiwedd mis Hydref 2019 ond roedd yn frwnt eto'n ddigon buan. Roedd yn amlwg o'r Digwyddiad Dysgu, er gwaethaf gwrthwynebiad Glyn i ofal a'i dueddiad i gam-drin staff iechyd a gofal cymdeithasol yn eiriol, roedd y gweithwyr gofal yn hoff iawn ohono. Roedd yn ddeallus a llawn hiwmor, a doedd e ddim wedi colli ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth a chelf. Yn ystod y misoedd yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty, rhoddodd portffolio o waith celf at ei gilydd. Cymerodd hwnnw i'r coleg celf lleol drwy symud ei hun yn ei gadair olwyn gyda'r gobaith o gofrestru ar gwrs celf. Cafodd ei gais ei wrthod yn anffodus.

Gwnaeth gweithwyr gofal cartref ac ymwelwyr proffesiynol eraill â chartref Glyn fynegi eu pryderon ynghylch lles a chartref Glyn i'w dîm gofal a gwnaethon nhw sawl Atgyfeiriad Diogelu Oedolion. Yn ystod y misoedd cyn ei farwolaeth, nododd yr asiantaeth gofal cartref eu pryderon nad oedd diddordeb gyda Glyn yn ei gynllun gofal, roedd yn raddol yn mynd yn fwy bregus ac roedd hylendid ei gartref yn gwaethygu yn nhyb y tîm iechyd meddwl ac wrth i atgyfeiriadau Diogelu Oedolion cael eu gwneud. Yn ystod mis Rhagfyr 2019, ymwelodd Glyn â'r ysbyty ar dri achlysur, a pharodd yr ymweliad olaf 10 diwrnod. Cafodd atgyfeiriad ei wneud a bu trafodaethau rhwng y tîm meddygol, ei dîm iechyd meddwl, a Diogelu Oedolion. Ar ôl iddo gael ei ryddhau ar 31 Rhagfyr 2019, a'i farwolaeth ar 4 Ionawr 2020, ymwelodd gweithwyr gofal cartref, Nyrsys Ardal, a Meddyg Teulu Tu Allan i oriau â chartref Glyn. Cafodd atgyfeiriadau pellach eu gwneud i'r tîm Diogelu Oedolion a chysylltwyd eto â'r tîm iechyd meddwl cymunedol.

Gwnaeth sawl gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol weld, deall ac adrodd effaith yr hunan-esgeulustod ar ei les. Gwnaeth nifer o wahanol weithwyr proffesiynol asesu Glyn a nodi bod ganddo'r gallu meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun am y ffordd yr oedd yn byw ei fywyd, sef gwrthod gofal personol a chymorth domestig, gwrthod bwyd maethlon, a blaenoriaethu sigarêts ac alcohol.

Ar adeg yr adolygiad hwn, nid oedd unrhyw ddarpariaethau mewn gweithdrefnau diogelu oedolion i helpu a chynghori gweithwyr proffesiynol i ymyrryd pan fydd person yn esgeuluso ei hun yn ddifrifol.

Pwyntiau Dysgu:

Tai:

Roedd pawb a fu'n ymwneud â gofal Glyn yn deall yn iawn nad oedd ei fflat ar y llawr cyntaf yn addas i'w anghenion. Er bod symudedd Glyn eisoes yn gyfyngedig, dirywiodd yn ddifrifol yn y flwyddyn cyn ei farwolaeth. Er ei fod yn medru cerdded, roedd Glyn wedi gwanhau a cholli balans; symudodd o gwmpas ei fflat drwy afael ar

waliau a dodrefn. Roedd wedi trefnu dwy gadair olwyn iddo ei hun, un yn y fflat ac un ar waelod y grisiau allanol. Dringodd y grisiau drwy eistedd ar bob gris.

Prin iawn oedd y ceisiadau cadarnhaol a wnaeth Glyn am gymorth gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond roedd yn glir ei fod angen llety arall. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi bod tai gwael yn cael effaith fawr ar iechyd pobl a hwythau'n nodi mai hygyrchedd tai oedd prif achos afiechyd i bobl ag amhariadau symudedd. Fe wnaeth y gweithwyr proffesiynol a fu'n rhan o ofal Glyn gydnabod fod ei lety yn annigonol, ac yn wir, fe wnaethon nhw gais am gartref arall drwy broses gais Tai Caerdydd. Cysyllton nhw hefyd â nifer o gartrefi gofal lleol. Roedd Glyn ei hun wedi sôn yn bositif am gartref gofal, gan ddweud y byddai'n braf byw mewn lle gyda phobl eraill i gymdeithasu ag ef.

Yn anffodus, ni lwyddodd y tîm i ddod o hyd i gartref arall iddo am ddau brif reswm:

- Roedd cais Glyn am gartref hygyrch, drwy broses gais Tai Caerdydd, yn annhebygol iawn o fod yn llwyddiannus oherwydd y meini prawf daearyddol cul a nododd yn ei gais, a gallai fod wedi aros am flynyddoedd i fflat addas fod ar gael yn ei ddewis leoliad.
- Mae prinder cartrefi gofal cofrestredig sydd wedi'u sefydlu i gwrdd ag anghenion pobl iau sydd ag amhariad corfforol a phroblemau iechyd meddwl, ac o'r herwydd nid oedd y tîm gofal yn gallu dod o hyd i leoliad addas.

Nid oes modd gwybod a fyddai symud i gartref mwy hygyrch neu i amgylchedd cartref gofal wedi cyfrannu at wella iechyd Glyn, ond nid oes fawr o amheuaeth bod amodau gwael ei fflat wedi cyfrannu at y dirywiad yn ei iechyd ac o bosibl at ei ddiffyg ymgysylltu â gwasanaethau.

Pwynt Dysgu: Rhaid i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol bwysleisio a deall yn llawn bwysigrwydd cartref addas wrth gynnal asesiadau.

Canlyniadau Personol:

Daeth i'r amlwg yn ystod y Digwyddiad Dysgu fod y gweithwyr proffesiynol a fu'n ymwneud yn agos â gofal a chymorth Glyn yn gallu rhoi disgrifiad cyfoethog a manwl o'i bersonoliaeth a'i uchelgeisiau personol nad oedd mor glir yn y cofnodion a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Yn wir, mae'n deg dweud bod y cronoleg a baratowyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn disgrifio Glyn yn aml fel rhywun anodd ac ymosodol, esgeulus o'i hun, yn gwlychu a throchi ei hun, yn yfed alcohol yn ormodol ac yn byw gyda phroblemau iechyd meddwl. Roedd y gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu ar y llaw arall yn disgrifio Glyn fel person doniol, deallus, a phenderfynol gydag amrywiaeth eang o ffrindiau a diddordebau fel cerddoriaeth a chelf. Er nad oes amheuaeth bod Glyn yn her i weithwyr proffesiynol, mae'n bosibl bod y ffocws ar ei heriau wedi cyfrannu at gynllun gofal nad oedd e'n gallu uniaethu ag ef. Efallai y byddai cynllun gofal a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ei ddiddordebau mewn cerddoriaeth a chelf wedi cynnig mwy o gyfle i ysbrydoli a newid.

Mae hefyd yn bosibl y cafodd cais aflwyddiannus Glyn i ymuno â'r coleg effaith hirdymor ar hyder ac ymdeimlad Glyn o'i hunan-werth, a allai yn ei dro fod wedi cyfrannu at ei dueddiad i esgeuluso ei hun.

Pwynt Dysgu: Mae'r ymchwil a'r canllawiau sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol wrth weithio gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu perthnasoedd ag ymddiriedaeth, a derbyn ymddygiadau'r person tra'n gweithio tuag at newid cadarnhaol ar yr un pryd.

Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid/Capasiti:

Gwelwyd bod Glyn wedi cadw'r gallu meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun am ei ofal a'i gefnogaeth. Ar adegau roedd gweithwyr proffesiynol yn cwestiynu doethineb ei benderfyniadau ac felly ei allu meddyliol i wneud penderfyniadau, ac awdurdodwyd amddifadu o ryddid er mwyn i Glyn fod yn yr ysbyty er ei fudd ei hun. Nodwyd anghysondeb yn yr adolygiad o ran deall sut mae rhoi Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ar waith a'u heffaith mewn gwahanol wasanaethau cyhoeddus.

Pwynt Dysgu: RHAID i bob gweithiwr yn y sector cyhoeddus, sy'n ymwneud ag amddifadu person o ryddid pan fydd wedi colli ei allu meddyliol, ddeall Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i'r graddau hynny sy'n berthnasol yn eu rôl.

Deddf Iechyd Meddwl 1983:

Roedd Glyn wedi byw ag anhwylder hwyliau am flynyddoedd lawer, gyda thueddiad i gael gyfnodau manig a chyfnodau o hwyliau isel ac ymddygiadau hunanladdol, ac yn ddiweddaraf, cyflwr mwy sefydlog ond isel. Cafodd e gymorth gan wasanaethau iechyd meddwl am flynyddoedd lawer a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty sawl gwaith, o'i wirfodd a than orfod. Ni phriodolwyd ei esgeulustod o'i hun a'i ddiffyg ymgysylltiad â gwasanaethau yn ystod cyfnod yr adolygiad i anhwylder meddyliol digon difrifol i'w asesu a'i drin yn yr ysbyty, ac oherwydd hynny nid oedd gwasanaethau iechyd meddwl yn gallu gorfodi Glyn i ddilyn cynllun gofal a thriniaeth. Roedd gan Glyn hanes o anhwylder affeithiol deubegynol, sy'n tueddu i achosi cyfnodau o gynnwrf, mania a dychmygu pethau, ond yn y 12 mis cyn ei farwolaeth, nodwyd mewn asesiadau bod ei hwyliau'n sefydlog neu'n isel. Er na fyddwn ni byth yn gwybod p'un a gyfrannodd ei hwyliau isel at ei hunan-esgeulustod, nid oedd yn ddigonol i'w dderbyn i'r ysbyty ar sail orfodol.

Pwynt i'w Nodi: Dim ond yn achos y rhai sy'n dioddef gydag anhwylder meddwl sy'n ddigonol i dderbyn y person i'r ysbyty ar sail orfodol y gellir defnyddio'r pwerau gorfodi dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Nid oedd iechyd meddwl Glyn yn ddigonol i ddefnyddio pwerau gorfodi yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Eiriolaeth:

Nodwyd yn gyson wrth asesu Glyn fod ganddo'r gallu i wneud ei benderfyniadau ei hun a chynrychioli ei farn – ond mae'r hawl i eiriolaeth yn wahanol. Rhaid cynnig eiriolaeth pan nad yw person yn gallu goresgyn y rhwystrau rhag cymryd rhan lawn yn y broses o asesu a chynllunio ei ofal heb gymorth gan berson priodol. Nid oes fawr o amheuaeth fod gan Glyn y gallu i gymryd rhan yn y broses o gynllunio ei ofal. Yn wir, dywedodd ei dîm gofal fod 'ganddo gysyniad clir o'i anghenion gofal' ond roedd rhywbeth yn ei atal rhag cymryd rhan mewn modd iach a phositif.

Roedd colled hyder Glyn mewn gwasanaethau iechyd, cartrefu, a gofal cymdeithasol yn rhwystr sylweddol rhag cymryd rhan yn y broses o gynllunio ei ofal, ond ni chafodd hynny ei adnabod ar y pryd. Mae'n bosibl y byddai Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol wedi cynorthwyo Glyn i gadw ei ddymuniad i symud i gartref gwahanol ar yr agenda cynllunio gofal yn well.

Pwynt Dysgu: Dylai rôl Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gael ei deall a'i hystyried yn iawn gan yr holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Cydbwyso'r hawl i breifatrwydd a'r hawl i fywyd

Mae gweithio gydag oedolyn sy'n esgeuluso ei hun yn un o'r heriau mwyaf ym maes gofal a chymorth, gan fod gweithwyr proffesiynol yn wynebu tasg sensitif o gydbwyso hawl Erthygl 8 person i fywyd preifat a theuluol, dyletswydd gofal y gweithiwr proffesiynol, a hawl Erthygl 2 y person i fywyd. Mae gweithwyr iechyd a Gofal Cymdeithasol proffesiynol yn deall nad yw Erthygl 8 yn rhoi hawl absoliwt i fywyd preifat a theuluol gan y gallai fod cyfiawnhad dros ei ddiystyru, er enghraifft, er mwyn amddiffyn iechyd, atal troseddu, neu amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Un thema gyffredin yn yr ymchwil a'r canllawiau wrth gynorthwyo pobl sy'n esgeuluso eu hunain yw'r angen i feithrin ymddiriedaeth. Fodd bynnag, roedd Glyn yn ei chael hi'n anodd ymddiried a derbyn cymorth gan weithwyr proffesiynol, yn enwedig gan nad oedd ei gais am lety arall wedi'i fodloni. Roedd ei berthynas gyda'i weithiwr cymdeithasol a'r gweithwyr gofal cartref yn newidiol - byddai'n derbyn cyn lleied o ofal â phosibl a rheolodd y lefel o ofal yr oedd yn fodlon ei dderbyn mewn ffordd ddi-flewyn-ar-dafod a chas weithiau. Byddai pob plaid yn cytuno bod hynny'n gadael Glyn heb y gofal personol yr oedd ei angen i gynnal ei hylendid personol a hylendid ei gartref, neu i gael maeth digonol. Effeithiodd hynny yn y pen draw ar ei iechyd. Nid oedd darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol yn achos Glyn, gan adael gweithwyr proffesiynol gyda dyletswydd gofal, ond heb ddyletswydd gwarchod, a heb lawer o allu i fynnu ymyrraeth fwy cadarnhaol. Parhaodd ei dîm gofal i'w helpu drwy'r cyfan, gan gynnig cymaint o chymorth ag yr oedd Glyn yn fodlon ei dderbyn.

Pwynt Dysgu: Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sy'n esgeuluso eu hunain, ac sydd â rôl yn y pen draw o wyllo dirywiad iechyd araf person, mewn perygl o brofi trawma'n deillio o hynny sy'n debygol o effeithio ar les y gweithiwr proffesiynol. Mae'n bwysig cydnabod hyn a bod staff yn derbyn y cymorth priodol.

Rôl teulu a ffrindiau

Deallwyd bod Glyn yn gymdeithasol a bod ganddo berthnasoedd â chymdogion a ffrindiau. Roedd mam Glyn i'w gweld yn chwarae rhan bositif yn ei fywyd a hithau'n ymweld ag ef yn wythnosol, yn cynnig bwyd iddo, ac yn ei annog i lanhau ei fflat a gofalu am ei iechyd. Yn anffodus, oherwydd dirywiad ei hiechyd ei hun a gwrthwynebiad Glyn i'w hymyrraeth, lleihaodd cefnogaeth ei fam yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn. Mae'n dra thebyg bod y cymorth a roddodd mam Glyn yn sefydlogi ac yn gwella ei les, a doedd e ddim yn gallu ail greu hyn.

Pwynt i'w Nodi: Mae cyfraniad pobl bwysig ym mywydau oedolion sy'n esgeuluso eu hunain yn aml yn digwydd heb gael ei weld, ond mae'n gallu rhoi diogelwch sylweddol. Gall colli person pwysig waethygu'r risg o ddwysáu ymddygiadau hunan-esgeulus ac felly dylid ei gydnabod yn rhan o'r broses o gynllunio gofal.

Yr ymateb i ddirywiad ei iechyd yn y dyddiau cyn ei farwolaeth

Roedd yn amlwg yn ystod y 12 mis olaf o fywyd Glyn fod ei iechyd yn dirywio'n gyflym. Nid oedd profion meddygol yn gallu dod o hyd i unrhyw reswm dros y dirywiad, ond mae ei hunan-esgeulustod, diffyg maeth, a gormod o alcohol a sigaréts yn debygol o fod wedi gwaethygu'r dirywiad. Tua diwedd ei oes, roedd

wedi colli cryn dipyn o bwysau o ganlyniad i ddeiet gwael, a gallai hynny fod wedi effeithio ar ei gyflwr meddyliol a'i allu meddyliol. Gan gydnabod hyn, gofynnodd ei weithiwr cymdeithasol am asesiadau gallu meddyliol pellach yn ystod ei ymweliad olaf yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, lle eto nodwyd ei fod â gallu meddyliol er gwaethaf ei eiddilwch.

Gwnaethpwyd sawl atgyfeiriad i'r tîm Diogelu Oedolion yn ystod yr wythnosau olaf o fywyd Glyn gan nodi hunan-esgeulustod difrifol. Disgrifiwyd bod ei gyflwr tenau yn achosi pryder mawr am ei fywyd.

Trafodwyd yr atgyfeiriadau i'r tîm Diogelu Oedolion yn fewnol a phenderfynwyd, oherwydd dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'i hunan-esgeulustod parhaus a'i allu meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun, y peth gorau oedd cyfeirio'r pryderon at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Ni chymerwyd y cyfle i gynnal Cyfarfod Strategaeth i rannu safbwyntiau'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol. Cyfle coll oedd hyn.

Pwynt Dysgu: Ni ddylai Atgyfeiriadau Diogelu Oedolion ynghylch unigolyn gael eu hystyried yn ddigwyddiadau unigol a di-gyswllt. Mewn achosion lle mae nifer o weithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau gwahanol sydd eto'n gysylltiedig, dylid cynnal cyfarfod strategaeth i rannu safbwyntiau pob gweithiwr proffesiynol perthnasol.

Gofal Cartref

Mae angen cydnabod rôl y gweithwyr gofal cartref a ymwelodd â Glyn yn ei gartref sawl gwaith bob dydd. Roedd gwrthwynebiad Glyn i ymyriadau gofal yn her fawr i'r gweithwyr gofal cartref. Roedd yn aml yn gas tuag at ei weithwyr gofal, roedd yn gwlychu ac yn baeddu ei hun, ac nid oedd yn ofalus lle gadawodd y padiau anymataliaeth, neu lle'r oedd yn gwlychu neu'n baeddu. Yn ogystal â hynny, roedd yn aml yn sâl neu'n pesychu gwaed, ac roedd hyn i'w weld drwy gydol ei gartref. Nid lle iach felly oedd i fyw neu weithio, yn enwedig oherwydd nd oedd Glyn yn gadael i'r staff gofal lanhau. Cafodd ei fflat ei ddisgrifio'n fudr ac yn aflan. Er gwaethaf yr amodau hyn, parhaodd y staff gofal cartref i roi cymaint o ofal a chymorth i Glyn ag y byddai'n caniatáu iddyn nhw wneud, ac mae angen cydnabod bod hynny'n mynd y tu hwnt i'r hyn y dylid ei ddisgwyl yn rhesymol gan staff gofal yn y cartref. Roedd yr asiantaeth ofal mewn cysylltiad rheolaidd â'i weithiwr cymdeithasol, wedi gwneud atgyfeiriadau i'r tîm Diogelu Oedolion a chysylltodd â gwasanaethau brys ar sawl achlysur i fynegi eu pryderon ynghylch dirywiad iechyd Glyn.

Pwynt Dysgu: Roedd y staff gofal cartref yn adrodd yn gyson i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Tîm Diogelu Oedolion, ond ni chawson nhw ddigon o adborth ac ni chawson nhw eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n hanfodol bod barn staff gofal cartref yn cael ei hystyried mewn adolygiadau rheoli achosion a thrafodaethau strategaeth Diogelu Oedolion.

Pwyntiau arfer da:

Pwynt i'w Nodi: Mae'n bwysig nodi yr oedd tîm gofal Glyn o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn parhau i fod wrthi'n cydlynu ei ofal; roedden nhw'n cysylltu â'r asiantaeth gofal cartref a gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod cyfleoedd cadarnhaol i ymyrryd yng nghyd-destun dirywiad iechyd Glyn yn cael eu hystyried.

Pwynt i'w Nodi: Mae'n bwysig nodi y bu'n rhaid i staff gofal cartref, sef y staff gofal ar y cyflogau isaf, ddangos y lefel uchaf o amynedd, gofal a gwytnwch o bawb a oedd yn ymwneud â Glyn. Nhw a fu'n ymweld ag ef amlaf ac roedd gofyn iddyn nhw weithio mewn amgylchedd heriol iawn tra'n derbyn sylwadau cas weithiau gan Glyn neu hyd yn oed gan ei gymdogion.

Gwella Systemau ac Arfer

Er mwyn sicrhau y dysgir o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi adnabod y camau gweithredu canlynol i'r Bwrdd Diogelu Oedolion a'i asiantaethau partner, a'r canlyniadau gwella disgwylidig:-

Pwynt Dysgu: Bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn pwysleisio ac yn deall pwysigrwydd cartref addas wrth gynnal asesiadau. Mae tai addas o ansawdd da yn angen sylfaenol. Roedd diffyg cartref addas i Glyn wedi cyfrannu at ei esgeulustod o'i hun. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro gydnabod pwysigrwydd tai addas ar gyfer oedolion ag anghenion gofal a chymorth. Dylai fod yn fodlon bod prosesau ar waith i sicrhau bod digon o opsiynau llety ar gyfer oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth a bod y broses i gael eiddo o'r fath yn hygyrch heb oedi diangen.

Argymhellion:

- Gan gydnabod pwysigrwydd tai o ansawdd da a chymorth tai o ran lles pobl, argymhellir bod gweithwyr proffesiynol tai yn rhan o drafodaethau cynllunio gofal lle mae tai amhriodol neu o ansawdd gwael yn achosi dirywiad i les person neu bersonau sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Pwynt Dysgu: Mae'r ymchwil gyfyngedig ar weithio gyda phobl sy'n esgeuluso eu hunain yn tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a derbyn ymddygiadau'r person tra'n gweithio tuag at newid cadarnhaol ar yr un pryd.

Argymhellion:

- Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ystyried sefydlu Fframwaith Aml-Asiantaeth i ymateb i achosion o hunan-esgeuluso i roi cymorth, arweiniad a safbwynt ehangach i weithwyr proffesiynol wrth weithio gyda phobl sy'n esgeuluso eu hunain mewn ffordd barhaus a pheryglus.

Pwynt Dysgu: RHAIID i bob gweithiwr yn y sector cyhoeddus, sy'n ymwneud ag amddifadu person o ryddid pan fydd wedi colli ei allu meddyliol, ddeall yn llawn Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Argymhellion:

- Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhoi arweiniad sylfaenol i bob gweithiwr yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys y rhai a gomisiynir i roi gwasanaeth sector cyhoeddus, megis staff cartrefi gofal a gofal cartref) pryd bynnag y byddan nhw'n gweithio gyda pherson sydd o bosibl heb y gallu meddyliol i wneud ei benderfyniadau ei hun. Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau bod yr holl bartneriaid yn deall elfennau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid perthnasol i'w rôl yn llawn drwy raglen hyfforddiant gynhwysfawr a thrwy fonitro'r ffordd y mae'r ddeddf yn cael ei dehongli yn y sefydliad.

Pwynt Dysgu: Dylai rôl Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gael ei deall a'i hyrwyddo'n iawn gan yr holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Argymhellion:

- Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau bod Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar gael i'r holl ddinasyddion sy'n oedolion ac sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dylid gwneud cynnig cadarnhaol i bob dinesydd sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol os oes amheuan o ran gallu'r person i'w defnyddio'n llawn ac os nad oes ganddo berson priodol i weithredu ar ei ran. Dylai cynnig cadarnhaol gynnwys egluro annibyniaeth a chylch gwaith yr eiriolwr, gan dynnu sylw at y wybodaeth, sgiliau a phrofiad arbenigol y gallai'r Eiriolwr eu cynnig.

Pwynt Dysgu: Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sy'n esgeuluso eu hunain, ac sydd â rôl yn y pen draw o wyllo dirywiad iechyd araf person, mewn perygl o brofi trawma'n deillio o hynny sy'n debygol o effeithio ar les y gweithiwr proffesiynol. Mae'n bwysig cydnabod hynny, a bod y staff yn cael y cymorth priodol.

Argymhellion:

- Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro gydnabod y risg o drawma mechnïol ar sefydliadau partner a'r effaith bosibl y gallai hynny ei gael ar les y staff. Mae angen i fecanweithiau goruchwyllo a chymorth fod ar gael i'r holl staff.

Pwynt Dysgu: Ni ddylai Atgyfeiriadau Diogelu Oedolion ynghylch unigolyn gael eu hystyried yn ddigwyddiadau unigol a di-gyswllt. Mewn achosion lle mae nifer o weithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau gwahanol sydd eto'n gysylltiedig, dylid cynnal cyfarfod strategaeth i rannu safbwyntiau pob gweithiwr proffesiynol perthnasol.

Argymhellion:

- Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro fewnosod gofyniad, ble bynnag y gwneir sawl atgyfeiriad Diogelu Oedolion ynghylch unigolyn neu gymuned, y cynhelir Cyfarfod Strategaeth Diogelu Ddiogelu ym mhob achos.

Pwynt Dysgu: Roedd y staff gofal cartref yn adrodd yn gyson i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Tîm Diogelu Oedolion, ond ni chawson nhw ddigon o adborth ac ni chawson nhw eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n hanfodol bod barn staff gofal cartref yn cael ei hystyried mewn adolygiadau rheoli achosion a thrafodaethau strategaeth Diogelu Oedolion.

Argymhellion:

- Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro gydnabod y rôl bwysig a gwerthfawr y mae staff gofal cartref yn ei chwarae o ran cadw pobl yn ddiogel ac o ran adrodd am bryderon i weithwyr proffesiynol eraill. Pryd bynnag y mae gweithwyr gofal yn ymwneud â gofal person, dylid eu hystyried yn aelodau craidd i unrhyw broses Diogelu Oedolion ac o'r herwydd, dylen nhw fod yn rhan o drafodaethau a chael adborth priodol.
- Dylai Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro hyrwyddo'r Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol ac atgoffa partneriaid o'u cyfrifoldebau i ddilyn a gofyn am adborth yn dilyn unrhyw atgyfeiriadau diogelu.

Datganiad gan Adolygydd/wyr			
ADOLYGYDD		ADOLYGYD D 2 (fel y bo'n briodol)	
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	
Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-		Gwnaf y datganiad canlynol i nodi Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-	
<ul style="list-style-type: none"> • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos 		<ul style="list-style-type: none"> • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos 	

<ul style="list-style-type: none"> • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl
---	--

Adolygydd 1 (Llofnod)	Adolygydd 2 (Llofnod)
Enw (Priflythrennau) Andy Cole	Enw (Priflythrennau) Sarah Skuse
Dyddiad	Dyddiad

Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)
Enw (Priflythrennau)
Dyddiad

Atodiad 1: Cylch corchwyl
Atodiad 2: Amserlen gryno

Proses Adolygu Ymarfer Oedolion
<i>I gynnwys yn gryno yma:</i> <ul style="list-style-type: none"> • Y proses y mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn ei dilyn a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu • Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau a fu'n bresennol • Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, ceisiwyd eu barn ac fe'u cynrychiolwyd drwy gydol y digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddyn nhw.

Rhestr Termau

- **AYO** – Adolygiad Ymarfer Oedolion
- **ADA** – Adran Damweiniau ac Achosion Brys
- **TIMC** – Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol
- **NSG** – Nyrs Seiciatrig Gymunedol
- **AYP** – Adolygiad Ymarfer Plant
- **BDCF** – Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
- **BIPCaF** – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- **TDRhCRh** – Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid
- **NA** – Nyrsys Ardal
- **TDA** – Tîm Dyletswydd Argyfwng
- **MT** – Meddyg Teulu
- **EPA** – Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (EPA)
- **TG** – Therapi Galwedigaethol
- **DGM** – Deddf Galluedd Meddyliol
- **DGCLI** – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- **GC** – Gweithiwr Cymdeithasol

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth

Dyddiad anfon llythyr cydnabod i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion

.....

Dyddiad anfon i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC (CSSIW)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AGIC (HIW)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Ei Fawrhydi Cwnstablath	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Ei Fawrhydi y Gwasanaeth Prawf	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Atodiad 1: Cylch corchwyl

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion (Estynedig)

Parthed: APR02/2020

Cyflwyniad

Caiff adolygiad ymarfer oedolion estynedig ei gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3. Caiff adolygiad ymarfer oedolion estynedig ei gomisiynu pan fo oedolyn sy'n wynebu risg wedi bod, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn unigolyn y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, ac sydd wedi:

- marw; neu
- gael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- amharwyd ar ei iechyd mewn ffordd ddifrifol a pharhaol.

Cylch Gorchwyl

Cytunwyd ar y cylch gorchwyl isod ar gyfer yr adolygiad hwn:

- Amserlen yr adolygiad fydd **4 Ionawr 2019 – 4 Ionawr 2020**
- Bydd y gwasanaethau canlynol yn llunio amserlen o ddigwyddiadau arwyddocaol o ran eu gwaith â'r Oedolyn, yn ystod y cyfnod uchod. Yna caiff amserlen gyfunol ei llunio.

Aelodaeth y panel:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion Caerdydd
- Diogelu Oedolion Caerdydd
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
- Gwasanaeth Gofal ac Ambiwllans Tredelerch (yr asiantaeth ofal cartref)
- Grŵp Tai Wales & West
- Everycare Ltd (Gwasanaethau Gofal yn y Cartref a Nyrso)

Tasgau Craidd (ar gyfer adolygiad ymarfer oedolion cryno/estynedig) (dileer fel y bo'n briodol)

- Penderfynu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu'n yr achos yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau i'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a gwasanaethau i'r unigolyn a'i deulu

- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwahodd cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am gynnydd.
- Ystyried unrhyw archwiliadau neu waith cyfochrog o ran yr achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Ar gyfer adolygiad Estynedig YN UNIG. Yn ogystal â'r broses adolygu, rhoi ystyriaeth benodol i'r canlynol:

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol am yr oedolyn mewn perygl a/neu aelodau'r teulu'n hysbys ac yn cael eu hystyried ym mhrosesau asesu, cynllunio a phenderfynu gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'r oedolyn mewn perygl, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd y wybodaeth honno at yr hyn a ddigwyddodd i'r oedolyn mewn perygl.
- A oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl yn gadarn ac yn briodol i'r oedolyn dan sylw a'i amgylchiadau.
- A gafodd y camau gweithredu eu rhoi ar waith, eu monitro a'u hadolygu'n effeithiol ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a chyflwyno camau amlasiantaethol.
- Yr hyn o ran y camau gweithredu a oedd yn llwyddiannus a'r hyn nad oedd yn llwyddiannus a pham. I ba raddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd o ran effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd yn erbyn amcanion cytunedig ar gyfer yr oedolyn mewn perygl. A ddilynwyd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol.
- A gyflawnwyd dyletswyddau statudol perthnasol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl a'r teulu?
- A gafwyd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/wyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.

- Nodi'r asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad na chysylltwyd â nhw eisoes gan Is-grŵp Adolygu Achosion Caerdydd a'r Fro, llunio amserlen a throsolwg achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn syth eisoes.
- Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau.
- Cynllunio gydag adolygydd/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, i gynnwys nodi pwy sy'n dod, a threfniadau i'w paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Cael ac ystyried yr adroddiad adolygu ymarfer oedolion drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, trafod y damcaniaethau cychwynnol, a nodi a chynnwys unrhyw ddysgu ychwanegol yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac ar gynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i Is-grŵp Adolygu Achosion Caerdydd a'r Fro a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth a chytundeb.
- Creu sesiwn briffio 7 munud ar y dysgu a nodwyd o'r Adolygiad Ymarfer Oedolion.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

- Ystyried a chytuno i unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y *panel adolygu* i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i anfon yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r asiantaethau perthnasol i roi sylw terfynol arnyn nhw cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut caiff gwelliannau i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

- **Cyd-gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Bro Morgannwg** fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw sylwadau cyhoeddus ac ymateb i ddiddordeb gan y cyfryngau yn yr adolygiad tan y cwblheir y broses.